GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG (SAINT-Y-BRID) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 20 MYA A DIRYMU) 2021

1. Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Bro Morgannwg wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 1, 2 a 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) a'r holl bwerau galluogi eraill, yn bwriadu gwneud Gorchymyn a fydd yn gorfodi'r hyn a ddisgrifir yn yr Atodlenni isod.
2. Gellir archwilio manylion llawn y cynigion, gan gynnwys y Gorchymyn arfaethedig a'r Cynllun Rhif: T/20/91/MS ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a all fod gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF934) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn 19 Mawrth 2021 ac mae'n rhaid cynnwys sail eich rhesymau dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, bod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn a gynigir.

ATODLEN 1

Dirymu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol:

Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (B4265 Ewenny Road (Rhan), Saint-y-brid) (Cyfyngiad Cyflymder 20mya Amrywiol) 2019.

ATODLEN 2

Ni chaniateir i unrhyw berson achosi neu alluogi cerbyd i deithio'n gyflymach na 20 milltir yr awr yn y lleoliad a nodir yn Atodlen 3 isod.

ATODLEN 3

B4265 Wick Road
O'r gyffordd â B4524 Southerndown Road, tua'r de, am oddeutu 852 metr, wrth y cyfyngiad cyflymder cenedlaethol presennol.

Lôn ddienw i Blackhall Road (drwy Fferm Court Newydd)
O'r gyffordd â B4265 Wick Road tua'r gogledd am oddeutu 100 metr.

B4265 Ewenny Road
O'r gyffordd â B4524 Southerndown Road tua'r gogledd am oddeutu 718 metr, wrth y cyfyngiad cyflymder 40 milltir yr awr presennol.

Penylan Road
Ar ei hyd.

B4524 Southerndown Road
O'r gyffordd â B4265 Ewenny Road / Wick Road, tua'r dwyrain yn gyffredinol, am oddeutu 260 metr, wrth y cyfyngiad cyflymder 40 milltir yr awr presennol

Heol-y-Slough
O'r gyffordd â B4265 Southerndown Road tua'r gogledd am oddeutu 85 metr, wrth y cyfyngiad cyflymder cenedlaethol presennol.

Lon-yr-Eglwys, Heol Sant Bridget, Lôn ddienw o B4265 Ewenny Road i Dŷ Bramerton
Lôn gefn (Tafarn The Fox) o B4265 Ewenny Road i'r Gorlan
Ar ei hyd.

Blackhall Road
O'r gyffordd â B4265 Ewenny Road tua'r dwyrain yn gyffredinol am oddeutu 202 metr, wrth y cyfyngiad cyflymder cenedlaethol presennol.

Meadow Court, Pant Close, Lôn ddienw o B4265 Ewenny Road i Heol-y-Milwyr
Ar ei hyd

Dyddiedig 25 Chwefror 2021.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg, Yr Alpau, Gwenfô CF5 6AA